Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 28 GORFFENNAF 2020***

***O BELL TRWY TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

## Rhan 1

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

## Adroddiad/Adroddiadau Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

## Adran A - Materion i'w Penderfynu

## Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth

3. Cais Rhif. P2020/0362 - Nant Helen a'r Tir Amgylchynol
*(Tudalennau 5 - 80)*
Gwaith cloddio adferol ategol i greu 2 lwyfan tirffurf dolennog (rhan ohono mewn cloddiad a rhan ohono ar lethr) gydag isadeiledd draenio cysylltiedig ac ardaloedd wedi'u tirlunio a chreu cynefinoedd i greu ardal o dir hyblyg ac addasadwy y gellid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys amaethyddiaeth, cadwraeth natur, hamdden, twristiaeth a defnydd diwydiannol, ymchwil a datblygu/busnes (o bosib yn cynnwys cyfleuster profi rheilffordd, ymchwil a datblygu a storio arfaethedig). (Cais trawsffiniol - gweler cyfeirnod Cais CB Powys 20/0738/FUL) ar Dir Safle Glo Brig Nant Helen, Powys ac o'i gwmpas a Chanolfan Ddosbarthu Onllwyn, Castell-nedd Port Talbot.

4. Cais Rhif. P2020/0486 – Canol Tref Castell-nedd *(Tudalennau 81 - 124)*
Canolfan Hamdden, yn cynnwys pwll nofio, ystafell iechyd a champfa ynghyd â chaffi ategol, 6 uned fasnachol (defnydd A1, D1) yn ogystal â llyfrgell gyhoeddus ar y llawr cyntaf. Ynghyd ag iard wasanaeth gysylltiedig, gwelliannau i fannau cyhoeddus a thirlunio ar dir yn Stryd y Dŵr, Castell-nedd.

5. Cais Rhif. P2020/0538 - Canolfan Tecniwm *(Tudalennau 125 - 158)*
Adeiladu Canolfan Dechnoleg, parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir gerllaw Canolfan Technium, Central Avenue, Parc Ynni Bae Baglan SA12 7AX.

6. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **S.Paddison** |
| **Is-Gadeirydd:** | **S.Pursey** |
| **Aelodau:** | Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Aelod Cabinet:** | Councillor A.Wingrave |

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning.

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**<u>Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor</u>**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn <u>2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf</u> (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.